# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau

## 16 Gorffennaf 2021 – 10:30-12:00

## Microsoft Teams

### Y bobl oedd yn bresennol

Delyth Jewell AS (DJ) – Cadeirydd
Rhys Jackson, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (RJ) – Ysgrifennydd Dros Dro
Ceri Cryer, Age Cymru (CC)
Deb Morgan, CIA, Prifysgol Abertawe (DM)
Dereck Roberts, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru (DR)
Gino Parisi, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (GP)
Heléna Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (HH)
Jayne Bryant AS (JB) – Is Gadeirydd
Lynda Wallis, Senedd Pobl Hŷn Cymru (LW)
Michelle Lewis, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (ML)
Mirain Llwyd Roberts, Cyngor Gwynedd (MLR)
Neil Williams, Gofal a Thrwsio (NW)
Peredur Owen Griffiths AS (POG) – Is Gadeirydd
Philippe Demougin, Hafod (PD)
Stephanie Green, Prifysgol Abertawe (SG)
Steve Milsom, COPA (SM)

### Ymddiheuriadau

Altaf Hussain AS
Carol Maddock, Prifysgol Abertawe
Catrin Hedd-Jones, Prifysgol Bangor
Eleri Williams, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Josh Hayman, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Laraine Bruce
Liz Jones, Prifysgol Abertawe
Llyr Gruffydd AS
Nia Richards, Tybed
Phoebe Brown, Caffi Trwsio
Sharon Ford, Amgueddfa Cymru
Stephen Burke, United for All Ages

### Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd DJ bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i bob aelod gyflwyno eu hunain i'r Grŵp.

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – enwebu Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth

Fe wnaeth JB enwebu DJ yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol – cymeradwywyd hyn gan y Grŵp heb wrthwynebiad. Enwebwyd JB, POG ac Altaf Hussain yn is-Gadeiryddion y Grŵp Trawsbleidiol gan DJ – cymeradwywyd hyn gan y grŵp heb wrthwynebiad.

Fe wnaeth DJ enwebu Josh Hayman o swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol – cymeradwywyd hyn gan y Grŵp heb wrthwynebiad.

## Cytuno ar Flaenoriaethau a Chyfleoedd yn y Senedd Nesaf

Dywedodd DJ wrth y grŵp y gallai wneud cais i'r Senedd pa bai unrhyw un yn dymuno cael cyfieithiad Cymraeg mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Croesawodd hefyd gyfraniadau i'r cyfarfod yn Gymraeg.

Atgoffodd DJ y grŵp o'r blaenoriaethau o'i gyfarfod diwethaf, sef:

- Mynd i'r afael ag Unigrwydd a bod Wedi'ch Ynysu
- Dysgu Gydol Oes
- Oedraniaeth
- Sgiliau ac Economi

Holodd DJ am farn pobl am y blaenoriaethau hyn.

Roedd MLR yn cefnogi'r blaenoriaethau ond yn dadlau y dylai'r gwaith i bontio'r cenedlaethau gynnwys adferiad Covid-19. Galwodd hefyd am ddull gweithredu Cymru gyfan ac am ddysgu gan wledydd eraill, fel gwaith yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Roedd SM yn cefnogi'r blaenoriaethau ac yn cytuno â'r angen am ddull gweithredu Cymru gyfan i wneud y defnydd gorau o adnoddau. Dywedodd fod angen symud o greu strategaeth i weithio i gyflawni pethau, gan alw am gynllun gweithredu. Unwaith y byddir wedi cytuno ar y blaenoriaethau, dywedodd DJ mai'r her fydd sut mae bwrw ymlaen â nhw a diffinio beth y mae angen i'r grŵp ei wneud. Tynnodd sylw at y posibilrwydd o wahodd gweinidogion Llywodraeth Cymru i'r grŵp.

Cytunodd HH â'r pwyntiau hyn, gan nodi pwysigrwydd cadw cysylltiadau rhwng y cenedlaethau yn ystod gwaith ar Covid-19. Crybwyllodd y Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, sy'n trafod cyswllt rhwng y cenedlaethau, a nododd y bydd ei chynllun gweithredu'n cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn. Galwodd am i flaenoriaethau'r Grŵp fod yn rhan o'r cynllun gweithredu hwn. Dywedodd y dylai

gwaith y Grŵp Trawsbleidiol fod yn drawslywodraethol, gan nodi pwysigrwydd cysoni gwaith y Grŵp Trawsbleidiol â blaenoriaethau'r llywodraeth. Soniodd am waith y Comisiynydd Pobl Hŷn i ddatblygu cymunedau sy'n ystyriol o oedran, gan dynnu sylw at waith i ddod â phobl hŷn a phobl iau at ei gilydd i archwilio eu cymunedau o ran pa mor ystyriol o oedran ydyn nhw. Dywedodd DJ y gallai'r Grŵp geisio helpu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru gyda'r gwaith cymunedol hwn.

Cytunodd NW â'r pwyntiau a godwyd a thynnodd sylw at yr agenda iechyd y cyhoedd. Dywedodd fod sgyrsiau naturiol y gellid eu cynnal rhwng plant agored i niwed a phobl hŷn agored i niwed, gan nodi y gallai cwympo fod yn un o'r rhain. Tynnodd sylw at y ffaith y byddai'r Tasglu Codymau Cenedlaethol yn hoffi edrych ar y risg o gwympo rhwng y cenedlaethau, gan nodi'r posibilrwydd y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn gweithio ar hyn. Dadleuodd DJ fod y disgwyliadau o ran galluoedd pobl hŷn ac iau yn ymwneud â'r ffordd y mae cymdeithas yn cynllunio ardaloedd trefol, yn hytrach na pha mor agored i niwed ydyn nhw. Cytunodd NW, gan nodi mai'r her yw bod angen i gymdeithas a chymunedau fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n analluogi'r hen a'r ifanc, sy'n aml yn creu risgiau'n anfwriadol neu ddim yn mynd ati i'w dileu.

Nododd DR ei brofiad o fod yn llywodraethwr ysgol ac yn Gynghorydd yn Abertawe, gan dynnu sylw at effaith ofnadwy Covid-19 ar bobl iau. Dywedodd eu bod eisiau bod yn ôl gyda'u ffrindiau ac y bydd angen llawer o waith i ailadeiladu cymunedau. Dywedodd DJ fod ailadeiladu ar ôl argyfwng yn tueddu i beidio â chynnwys yr ifanc iawn a'r hen iawn, a nododd y gallai hyn fod yn waith i'r Grŵp – edrych ar sut i gynnwys grwpiau o'r fath.

Dywedodd SG fod defnyddio dull gweithredu sy'n ymwneud â Covid-19 yn gwneud synnwyr a hefyd yn cefnogi'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt cynt. Gofynnodd a ddylai'r grŵp wahodd Penny Hall o Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am uwchgynhadledd pontio'r cenedlaethau a gynhaliwyd ym mis Mawrth. Roedd DJ yn gefnogol i hyn.

Trafododd POG bwysigrwydd rhannu profiadau bywyd rhwng cenedlaethau, gan ddadlau y bydd hyn yn creu undod. Dadleuodd y gallai hyn fod yn rhan o'r ffordd y mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn gweithio. Cytunodd DJ ar bwysigrwydd rhannu profiadau, gan dynnu sylw at drafodaethau blaenorol y Grŵp Trawsbleidiol ar hyn.

Dywedodd SM fod llawer o brosiectau wedi cael eu cynnal yn ddiweddar ledled Cymru y gellid eu rhannu'n fuddiol, gan ddadlau y byddai rhyw fath o waith mapio ac adroddiad yn helpu'n aruthrol i hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth. Dywedodd DJ y gallai hyn fod yn rhan o waith y Grŵp Trawsbleidiol.

Tynnodd MLR sylw at greu grŵp Facebook i rannu arferion da a dysgu oddi wrth ein gilydd yng Nghymru. Gofynnodd i bobl ymuno os oes ganddynt ddiddordeb: [https://www.facebook.com/groups/1401957830167151/](https://www.facebook.com/groups/1401957830167151/)

Tynnodd LW sylw at waith blaenorol a wnaed gyda throseddwyr ifanc a datblygiad cadarnhaol y sgyrsiau a ddaeth gyda hyn. Dywedodd fod y bobl iau eisiau gwybod sut beth oedd bywyd a chymdeithas yn y gorffennol, gan nodi ei fod yn brosiect ‘gwych’.

*Ymunodd DM â’r cyfarfod.*

Tynnodd MLR sylw at ymchwil gan Diane Boyd sy’n gweithio ar gaffis cynaliadwy sy’n pontio’r cenedlaethau, a nododd y posibilrwydd o gysylltu â’r gwaith sy’n cael ei wneud ar Gaffis Trwsio. Dadleuodd y gall gwaith pontio’r cenedlaethau gael effaith ar adfywio canol trefi, gan nodi y dylid cysylltu gwaith o’r fath â phrosiectau adfywio.

Dywedodd GP fod angen gwahaniaethu rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd wrth drafod gwaith pontio’r cenedlaethau, gan nodi ei bod yn llawer anoddach ymgysylltu ag ysgolion uwchradd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi gweithio gyda rhai ysgolion i ymgorffori gwaith gyda Bagloriaeth Cymru ond mae wedi’i chael yn anoddach cysylltu â phynciau eraill oherwydd y cwricwlwm.

Dywedodd MLR ei bod wedi gallu ymgysylltu drwy ysgolion sy’n gweithio ar Wobr Dug Caeredin ac Agored Cymru. Dywedodd ei bod yn gobeithio y bydd y cwricwlwm newydd yn help mawr i Gyngor Gwynedd allu mynd i ysgolion. Dywedodd hefyd fod angen i ysgolion ddeall sut y gall gwaith pontio’r cenedlaethau helpu i recriwtio ar gyfer gyrfaoedd ‘gofal’ hefyd.

Dywedodd DJ ei bod yn bwysig helpu plant i gadw eu natur lawen wrth iddynt dyfu, gan nodi bod straen a disgwyliadau yn achosi i lawer fod yn anhapus. Dywedodd fod gwaith pontio’r cenedlaethau, sy’n help i gyfoethogi bywydau, yn gallu helpu yn hyn o beth.

Dywedodd DR y bydd gan Abertawe Fforwm Pobl Hŷn 50+ newydd cyn bo hir yn dilyn penodiadau diweddar. Nododd waith yn Ysgol Dylan Thomas sydd wedi bod yn rhan o Sefydliad Johan Cruyff. Mae hyn yn golygu creu lleiniau 3G, ac mae DR yn gobeithio y bydd yr ysgol wedyn yn ganolbwynt i’r gymuned. Dywedodd fod dod â gwasanaethau allweddol i ysgolion yn bwysig i’r gymuned. Galwodd hefyd am fwy o ffocws ar Fagloriaeth Cymru. Roedd SM yn cefnogi’r newyddion.

*Gadawodd JB a POG y cyfarfod.*

Roedd PD yn cefnogi’r blaenoriaethau blaenorol ond yn rhybuddio rhag lledaenu’r Grŵp Trawsbleidiol yn rhy denau. Awgrymodd DJ fod y Grŵp Trawsbleidiol yn neilltuo cyfran o amser ar ddechrau pob cyfarfod i dynnu sylw at waith da a sgwrs dreigl i nodi prosiectau newydd. Dywedodd hefyd fod angen cynllun gweithredu penodol i helpu i ddatblygu’r agenda. Galwodd am ddod â’r Gweinidog Addysg i mewn yn gyntaf i gyfarfod i drafod rhai o’r nodau hyn.

Tynnodd LW sylw at bwysigrwydd newid canfyddiadau gwahanol genedlaethau o’i gilydd, gan nodi trafodaethau blaenorol y mae hi wedi’u cael gyda phobl iau lle mae

rhwystrau wedi cael eu chwalu drwy gael trafodaethau agored. Tynnodd DJ sylw at y posibilrwydd o wahodd aelodau o'r Senedd Ieuenctid i fod yn rhan o'r Grŵp Trawsbleidiol, yn ogystal â chynnal deialog gyda phobl iau. Nododd y byddai'n ddefnyddiol ymgysylltu â phobl iau nad ydynt fel arfer yn ymwneud â phrosiectau o'r fath. Dywedodd LW ei bod yn bwysig cael rhywfaint o gynrychiolaeth o blith pobl iau, er mwyn deall sut maen nhw'n teimlo am waith sy'n pontio'r cenedlaethau.

Gofynnodd DJ beth fyddai'r Grŵp Trawsbleidiol eisiau dechrau gweithio arno, gan nodi y bydd hi a Josh Hayman yn gweithio ar gynllun gweithredu yn dilyn mewnbwn gan y grŵp. Dadleuodd LW y byddai'n ddefnyddiol gweithio o ddrafft cyn cytuno ar hyn. Dywedodd NW mai un o'i brif flaenoriaethau fyddai dechrau sgwrs genedlaethol, gan ganmol cyfraniad LW.

Dadleuodd DM y gallai sgwrs genedlaethol roi 'enillion cyflym', y gellid eu hyrwyddo mewn sawl ffordd fel y cyfryngau, datganiadau i'r wasg ac ati. Dywedodd hefyd y gellid gwneud gwaith gyda CADR ar hyn. Dywedodd DJ y byddai'r flwyddyn academaidd newydd yn gyfle i gysylltu â phobl iau. Dywedodd y bydd angen gwneud gwaith cynllunio dros yr haf i gychwyn ar y gwaith yn yr hydref.

Tynnodd SM sylw at y ffaith bod Covid yn gwneud y gwaith o gynllunio digwyddiadau a gwaith yn anodd ar hyn o bryd, gyda'r angen i gynnal archwiliadau iechyd ac ati. Dadleuodd fod angen cynllunio ar gyfer 2022 lle na fydd cynllunio o'r fath yn gymaint o ystyriaeth. Roedd yn cefnogi sgwrs genedlaethol fel blaenoriaeth a chydgynhyrchu strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Pontio'r Cenedlaethau. Dywedodd fod angen i'r gwaith gynnwys symudiad o'r gwaelod i fyny.

Canmolodd DJ y gwaith a wnaed gan SG ar fapio darpariaeth pontio'r cenedlaethau a gwaith arall.

Gofynnodd DJ i'r Grŵp Trawsbleidiol feddwl am unrhyw un o'r genhedlaeth iau a allai fod eisiau bod yn rhan o'r Grŵp Trawsbleidiol.

**Camau Gweithredu**

- DJ a JH i greu cynllun gweithredu drafft, yn gweithio ar yr hyn sydd eisoes wedi'i drafod ac yn cynnwys sgyrsiau newydd. Bydd hyn yn cael ei rannu drwy e-bost a bydd rhagor o drafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch beth sydd angen ei wneud dros yr haf. Bydd hyn yn rhoi ffocws cul ac yn ymdrin â'r hyn y gellid gofyn i'r gwahanol weinidogion ei ddarparu. Roedd DM yn hapus i helpu gyda'r gwaith hwn.
- DJ/JH i drefnu pôl Doodle i ddod o hyd i ddyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.